



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mike Hedges AC

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

5 Mawrth 2019

Annwyl

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Chwefror ynghylch amseru fy ymateb i'ch adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20.

Er bod ein ymateb yn cyd-fynd â'r amserlen a bennwyd yn yr e-bost comisiynu gan Fusnes y Pwyllgorau, rwy'n cydnabod na gyrhaeddodd ymateb y pwyllgor cyn y drafodaeth. Rwy'n ymddiheuro'n fawr am yr oedi o ran darparu'r wybodaeth hon. Fel yr ydych yn nodi yn eich llythyr, mae pwysau sylweddol wrth gynnal y broses o graffu ar y gyllideb. Rwyf yn ddiolchgar am y wybodaeth a gafwyd gan adroddiad y Pwyllgor ar nifer o faterion amgylcheddol pwysig. Rwyf hefyd yn croesawu'r her sydd gennym yn y pwyllgor craffu i sicrhau bod ein penderfyniadau terfynol yn rhai cadarn. Yn fwy na dim rwyf am sicrhau fy mod yn darparu ymateb ystyriol, o safon, a'r tro hwn roedd angen rhagor o amser am asesiad llawn o'r argymhellion yn eich adroddiad.

Yn y dyfodol, i sicrhau bod digon o amser ar gyfer ystyriaeth lawn o'r problemau cyllidebol, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion sicrhau eu bod yn holi tîm Busnes y Cyfarfodydd Llawn cyn gynted â phosibl.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport